**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1375
Ein cyf/Our ref FM -/00621/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

29 Tachwedd 2023

Annwyl Jack

Rwyf yn ymateb i'ch llythyr am Ddeiseb P-06-1375.

Mae dwy sefyllfa lle y mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd drefnu etholiad cyffredinol eithriadol:

(i) yn gyntaf, pan fo o leiaf dwy ran o dair o'r Senedd yn penderfynu, o dan adran 5(2), y dylai gael ei diddymu;
(ii) yn ail, pan fo un o'r digwyddiadau a ddisgrifir yn adran 47(2) yn digwydd, yn unol ag adran 5(3), a phan fo'r Senedd yn methu ag enwebu aelod o'r Senedd i'w benodi'n Brif Weinidog o fewn 28 diwrnod i'r digwyddiad hwnnw.

Un o'r digwyddiadau a ddisgrifir yn adran 47(2) yw pan fo'r Senedd (drwy fwyafrif syml) yn penderfynu nad oes gan Weinidogion Cymru hyder y Senedd bellach. Felly, os bydd y Senedd yn penderfynu nad oes gan Weinidogion Cymru hyder y Senedd bellach, ac yn methu ag enwebu Prif Weinidog newydd o fewn 28 diwrnod, byddai'n ofynnol i'r Llywydd drefnu etholiad cyffredinol eithriadol.

Er mwyn cyflawnrwydd, mae adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn galluogi'r Llywydd i ddwyn ymlaen dyddiad etholiad cyffredinol arferol. Er hynny, ni ellid defnyddio'r pŵer hwn ond i ddwyn y dyddiad ymlaen un mis (felly, gallai etholiad nesaf y Senedd gael ei gynnal ym mis Ebrill 2026 yn hytrach na mis Mai 2026).

Hoffem gyfeirio'r Pwyllgor at yr Adroddiad Blynyddol sy'n nodi record y llywodraeth hon.

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.